# trosglwyddo i maethu cymru sir y fflint



maethu cymru | foster wales

Sir y Fflint | Flintshire

Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council

# trosglwyddo i

## maethu cymru

Maethu Cymru yw'r rhwydwaith cenedlaethol o wasanaethau maethu Awdurdodau Lleol dielw ledled Cymru, a'n tîm yn Sir y Fflint yw eich rhwydwaith cymorth lleol.

Dim eich asiantaeth faethu safonol yw Maethu Cymru - rydym yn llawer mwy cysylltiedig.

Mae'n ymwneud â dewis pobl, dim elw – fel sefydliad nid-er-elw, mae ein holl gyllid yn mynd yn uniongyrchol i'r gwasanaeth maethu a ddarparwn.

Rydym yn ymroddedig i weithio fel tîm gyda gofalwyr maeth i helpu i adeiladu dyfodol mwy disglair i blant lleol. Rydyn ni'n eu helpu i aros yn eu hamgylcheddau lleol cyfarwydd, pan fo hynny'n iawn iddyn nhw.

# eisoes yn ofalwr maeth?

Fel eich gwasanaeth maethu awdurdod lleol rydym yn gyfrifol am yr holl blant a phobl ifanc mewn gofal yn Sir y Fflint.

Rydym yn gweithio'n agos gyda'r tîm o amgylch y plentyn: gweithwyr cymdeithasol plant, swyddogion adolygu annibynnol, gweithwyr cymorth gofal plant, ysgolion, seicolegwyr addysg ac iechyd, i ddarparu'r canlyniad gorau posibl i'r plant yn ein gofal.

Mae llawer o fanteision i blant pan gânt eu lleoli gyda gofalwyr maeth mewnol. Os ydych yn ofalwr maeth gydag asiantaeth breifat ar hyn o bryd, bydd y canllaw hwn yn darparu'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch am y broses drosglwyddo.

Fel arall, os ydych yn adleoli ac yn maethu ar gyfer awdurdod lleol arall, rhowch alwad i ni am sgwrs, yna gallwn siarad â'ch tîm presennol i benderfynu ar y broses drosglwyddo gywir i chi.

| gwasanaeth maethu awdurdod lleol | asiantaeth faethu annibynnol |
| --- | --- |
| Gwefan .llyw (fel arfer) | Gwefan .com (fel arfer) |
| Mae timau maethu dielw awdurdodau lleol yn rhan o'r un sefydliad sy'n gweithio ochr yn ochr â'r gweithwyr cymdeithasol sy'n gyfrifol am y plant. | Busnesau preifat, cyfyngedig, er elw. Mae grwpiau o asiantaethau maethu yn aml yn eiddo i ecwiti preifat. Elusennau dielw neu nid-er-elw fel arfer gyda gwefan .org |
| Yn gyfreithiol gyfrifol am blant sy'n dod i ofal ac fel arfer yn cysylltu â'u teuluoedd maeth eu hunain yn gyntaf. | Dibynnu ar yr awdurdodau lleol i gysylltu â nhw am blant. |
| Mae gofalwyr yn cael eu paru â phlant o ystod oedran a ffefrir, o fabanod i bobl ifanc yn eu harddegau. | Yn nodweddiadol, plant hŷn, gydag anghenion heriol neu grwpiau o frodyr a chwiorydd pan nad yw awdurdodau lleol yn gallu paru â'u gofalwyr maeth eu hunain. |
| Gofalu am blant sy'n byw ac yn mynychu ysgol o fewn y sir, gan eu helpu i aros yn eu cymuned. | Cwmpasu ardal ddaearyddol eang. |



# pam trosglwyddo i maethu cymru sir y fflint

Rydym yn rhan o dîm gwasanaethau plant yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ddarparu cartrefi diogel a sefydlog i blant sydd angen gofal.

Mae ein dewis ni yn ymwneud â dewis pobl, nid elw.

Rydym yn gyfeillgar, yn gyfarwydd, ar lawr gwlad yng Ngwynedd Mae gennym wybodaeth leol am ein plant a'n gofalwyr maeth, ac rydym ar gael pryd bynnag y byddwch ein hangen.

Rydym yn deall Sir y Fflint.

Gyda Maethu Cymru Sir y Fflint byddwch yn rhan allweddol o'n tîm. Byddwn wrth eich ochr bob cam o'r ffordd. Bydd gennych bob amser dîm i'ch annog, eich arwain a'ch cefnogi. Byddwch bob amser yn cael eich cynnwys, eich gwerthfawrogi a'ch parchu.

Bydd gennych fynediad i nifer o grwpiau cymorth gofal maeth lleol lle byddwch yn gallu cyfarfod â gofalwyr maeth eraill mewn sefyllfaoedd tebyg, rhannu profiadau a straeon, a meithrin perthnasoedd. Fe welwch chi gymunedau newydd a phobl sy'n deall.

Mae annog a chynnal cysylltiadau lleol, galluogi plant i barhau yn eu hysgol a'u cefnogi gyda chyswllt â theulu biolegol a ffrindiau lle mae hynny'n rhan o'u cynllun gofal unigol, yn golygu ein bod i gyd yn gweithio gyda'n gilydd i gyflawni'r canlyniadau gorau i blant lleol.

Mae darparu'r cyngor, cymorth a hyfforddiant angenrheidiol pan fo angen yn golygu ein bod yn gallu adeiladu dyfodol gwell i blant lleol gyda chymorth gofalwyr maeth lleol.

Mae symud o'ch asiantaeth faethu bresennol neu awdurdod lleol presennol i Maethu Cymru Sir y Fflint yn syml. Rhowch alwad i ni ar 01352 701965 am sgwrs gychwynnol neu gallwch gysylltu â ni yn hawdd drwy ein gwefan: maethucymru.siryfflint.gov.uk

Byddwn yn siarad am sut y bydd y broses yn gweithio orau i chi, sut y byddwn yn eich cefnogi, yn nodi anghenion ac yn sicrhau bod y broses mor syml â phosibl.

Mae gennym lawer o brofiad o'r broses drosglwyddo p'un a oes gennych blentyn neu berson ifanc yn byw gyda chi eisoes ai peidio, a gallwn leddfu unrhyw bryderon a delio ag unrhyw faterion a allai godi.

# beth i'w ddisgwyl gennym ni

- Rhwydwaith cefnogol o dros 160 o ofalwyr maeth wedi'u lleoli yn Sir y Fflint.
- Cefnogaeth gan eich gofalwr a thîm hwb Mockingbird, teulu estynedig sy'n cynnig arhosiad dros nos wedi'u cynllunio a rhai brys, cefnogaeth gan gymheiriaid a gweithgareddau cymdeithasol.
- Rhaglen ddysgu a datblygu gynhwysfawr, sy'n cynnwys dysgu wyneb yn wyneb a dysgu arlein, gyda hyfforddiant a datblygiad arbenigol lle bo angen.
- Cofnod dysgu unigol a chynllun datblygu, wedi'u llenwi â'r holl sgiliau a phrofiadau trosglwyddadwy y byddwch wedi'u hennill ar hyd y ffordd, ac yn gosod llwybr ar gyfer eich dyfodol.
- Gwasanaeth therapiwtig, sy'n cefnogi ein plant a gofalwyr maeth.
- Cefnogaeth broffesiynol 24/7 ar gyfer cyngor, arweiniad neu gefnogaeth. Ni fyddwch byth yn teimlo'n unig gyda ni.
- Mynediad i nifer o grwpiau cymorth gofal maeth lleol, digwyddiadau a gweithgareddau rheolaidd lle gallwch ddod yn nes at deuluoedd maeth eraill, cael profiadau newydd, cyfeillgarwch ac atgofion parhaol.
- Cefnogaeth ariannol sylweddol a lwfansau hael.
- Aelodaeth am ddim o'r Rhwydwaith Maethu (TFN) a'r Gymdeithas Maethu a Mabwysiadu (AFA) Cymru.
- Aelodaeth cerdyn Blue Light gyda mynediad i fwy na 15,000 o ostyngiadau.
- Gostyngiad o 50% oddi ar eich treth gyngor.
- 5 diwrnod ychwanegol o wyliau blynyddol os cyflogir gan Gyngor Sir y Fflint.

# rhesymau y mae eraill wedi trosglwyddo

1.cefnogaeth

2. profiad

3.gwerthfawrogiad

4.cysylltu

5.dan bwysau

1. Heb dderbyn y gefnogaeth oeddynt wedi ei addo a'i ddisgwyl
2. Eu sgiliau a phrofiad wedi'i danamcangyfrif
3. ddim yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi
4. Neb yn cysylltu â nhw i ofalu am blant
5. Cael eu rhoi dan bwysau i ofalu am blant nad oeddent yn cyd-fynd yn dda

# Llwybr 1 ddim yn gofalu am blentyn ar hyn o bryd




1. **Sgwrsiwch gyda'ch tîm Maethu Cymru Sir y Fflint**
Mae ein cefnogaeth yn dechrau yma. Byddwn yn dod i wybod mwy am pam rydych am drosglwyddo a beth hoffech ei ennill o drosglwyddo i'ch awdurdod lleol.

2. **Ar ôl ymweliad cychwynnol, pan fyddwch wedi gwneud y penderfyniad i drosglwyddo, bydd angen i chi roi gwybod i'ch asiantaeth bresennol eich bod wedi gwneud cais i faethu gyda Maethu Cymru Sir y Fflint a'ch bod, unwaith y bydd eich asesiad wedi'i gwblhau, yn bwriadu ymddiswyddo o'u hasiantaeth.**


3. **Byddwch wedyn yn cyfarfod eich gweithiwr cymdeithasol asesu, a fydd gyda chi drwy gydol eich proses asesu.**
Byddwn yn cynnal asesiad newydd, ac yn cysylltu â'ch asiantaeth bresennol i gael mynediad at ddogfennaeth sy'n bodoli eisoes i gasglu eich profiad a'ch hyfforddiant maethu blaenorol.

4. **Ar ôl i'ch asesiad gael ei gwblhau byddwch yn mynychu ein Panel Maethu a fydd yn gwneud argymhelliad ar delerau eich cymeradwyaeth.**
Unwaith y byddwch wedi'ch cymeradwyo gallwch roi 28 diwrnod o rybudd i'ch asiantaeth bresennol.

# Llwybr 2 yn gofalu am blentyn ar hyn o bryd

1. **Yn dilyn camau cychwynnol Llwybr 1, unwaith y byddwch wedi hysbysu eich asiantaeth o'ch dymuniad i symud i Maethu Cymru Sir y Fflint, byddant yn hysbysu swyddog adolygu annibynnol y plentyn o'ch bwriad i symud.**


   Yna byddant yn cynnal cyfarfod gan gynnwys pawb sy'n ymwneud â gofalu am y plentyn: chi, yr awdurdod lleol a osododd y plentyn, eich asiantaeth bresennol, a ni.




2. **Bydd y cyfarfod yn:**
   - Sicrhau fod anghenion y plentyn/plant yn parhau i gael eu diwallu a bod eu cynllun(iau) gofal yn cael eu trafod gyda ni fel eich tîm cymorth newydd.
   - Trafod anghenion y plentyn a chi fel gofalwyr maeth, a sut y byddwn yn cefnogi'r anghenion hynny.
   - Yr amgylchiadau lle gall Maethu Cymru Sir y Fflint leoli plentyn neu blant arall unwaith y bydd eich trosglwyddiad atom ni wedi ei gwblhau.

3. Tra bod hyn i gyd yn digwydd byddwn yn parhau â'r broses asesu a chymeradwyo.

# cwestiynau cyffredin




**Oes rhaid i mi gael asesiad ffurfiol i drosglwyddo i Maethu Cymru Sir y Fflint?**

Oes, ond dylai fod yn broses gyflymach na'ch asesiad blaenorol os gallwch roi eich asesiad gwreiddiol i ni. Bydd yn rhaid i chi fynychu hyfforddiant Paratoi i Faethu, a chael y gwiriadau cefndir arferol ac yna bydd eich asesiad yn cael ei gyflwyno i'n panel maethu yn y ffordd arferol.

**A oes angen profiad o faethu arnaf i drosglwyddo i Maethu Cymru Sir y Fflint?**

Os ydych yn ofalwr maeth cymeradwy gydag awdurdod lleol neu asiantaeth faethu arall, ond nad ydych wedi maethu plentyn gyda nhw eto, gallwch barhau i drosglwyddo i ni. Er ein bod yn gwerthfawrogi gofalwyr maeth profiadol a’r rhai sydd eisoes yn gofalu am blant sy’n dymuno trosglwyddo, rydym hefyd yn croesawu’r rhai sy’n dechrau ar eu taith faethu. Rydym yn deall nad yw realiti maethu gydag asiantaeth bob amser yn bodloni eich disgwyliadau cychwynnol.

Yn Maethu Cymru Sir y Fflint y sgiliau a'r profiad sydd bwysicaf i ni. Byddwn yn sicrhau'r cyfatebiaeth orau i chi a'ch teulu ac yn darparu'r gefnogaeth a'r hyfforddiant lleol angenrheidiol i ddiwallu anghenion y plant yn eich gofal.

## A allaf drosglwyddo os wyf eisoes yn maethu plentyn o awdurdod lleol Sir y Fflint?


Gallwch, a byddem yn annog hyn yn frwd. Mae eich plentyn eisoes yn cael ei gefnogi gennym ni a'n tîm gofal plant. Fel y bobl allweddol yn y tîm o amgylch y plentyn sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda ni, bydd yn galluogi'r gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda'r plentyn i weithio'n agosach gyda chi a sicrhau bod cynllun gofal y plentyn yn adlewyrchu eu hanghenion ac yn gweithio gyda'i gilydd i adeiladu bywydau gwell i blant sy'n derbyn gofal. .

## A allaf drosglwyddo os wyf eisoes yn maethu plentyn gydag awdurdod lleol arall?

Gallwch. Fel arfer, y brif flaenoriaeth yw lles y plentyn. Byddwn yn trafod, gyda chi a'ch awdurdod lleol, y cynllun gofal parhaus, yn archwilio unrhyw effaith bosibl ac a yw er lles gorau'r plentyn i aros yn eich gofal pan fyddwch yn symud i Maethu Cymru Sir y Fflint. Hoffem gadw deialog agored gyda chi a'ch Awdurdod Lleol presennol, felly dylech drafod eich symudiad gyda nhw hefyd.

## Pa mor hir y bydd yn ei gymryd i drosglwyddo?

Rydym yn gwneud pob ymdrech i gymeradwyo eich trosglwyddiad cyn gynted â phosibl ac anelu at gael eich cymeradwyo o fewn amserlen mor fyr â phosibl, yn ddelfrydol o fewn 4-6 mis



# pam ymunodd rhai o'n gofalwyr maeth â thîm maethu cymru

"Mae rhwydwaith cefnogol o bobl leol y gallwch chi siarad â nhw, sydd hefyd yn ofalwyr gyda phrofiadau tebyg, yn gwneud cymaint o wahaniaeth."

"Mae cadw ymdeimlad y plentyn o hunaniaeth a chynefindra yn bwysig iawn a gall eu helpu i ymgartrefu yn eu cartref a'u hamgylchedd newydd."

"Roedden ni eisiau i'r plant barhau i gael mynediad at eu ffrindiau, eu teulu a lle bo modd, eu hysgol."

maethu cymru | foster wales
Sir y Fflint | Flintshire

01352 701965
maethucymru.siryfflint.gov.uk